# CYLCHLYTHYR Y GWANWYN

YSGOL CALON CYMRU

## Croeso!

Croeso i gylchlythyr CA5! Yn y cylchlythyr hwn fe gewch enghreifftiau o'r hyn y mae'r disgyblion wedi bod yn ei wneud yn yr ysgol ers mis Rhagfyr. Rydym yn gyffrous i rannu gyda chi rai o lwyddiannau a chyraeddiadau'r myfyrwyr, enghreifftiau o waith y disgyblion a pheth gwybodaeth allweddol.

Hoffem ddiolch i'r rhieni a gofalwyr i gyd am eich cefnogaeth barhaol y tymor hwn.

## Neges y Pennaeth

Croeso i rifyn y Gwanwyn o gylchlythyr y Chweched Dosbarth. Fel bob amser, mae wedi bod yn dymor prysur yn Ysgol Calon Cymru, ac mae'r cylchlythyr hwn yn rhoi mewnwelediad byr i'r holl weithgareddau a chyfloedd sydd ar gael i'n disgyblion.

I ddisgyblion y Chweched Dosbarth, mae'r ffocws yn gadarn nawr ar eu harholiadau sydd gerllaw, a gwneud yn siŵr eu bod yn gwneud cystal ag y medrant. Mae'n adeg cyffrous iawn o'r flwyddyn i'n disgyblion i gyd, ond yn arbennig i Flwydydn 13 wrth iddynt edrych y tu hwnt i Ysgol Calon Cymru. Bydd gwaith caled nawr yn talu ar ei ganfed, a hoffwn annog ein disgyblion i gyd i weithio'n galed a chadw golwg ar nodau eu dyfodol. Bydd y cyfan yn werth chweil!

Dr Richard Jones
Pennaeth

## DYDDIADAU'R TYMOR

**Tymor y Gwanwyn:**
Dydd Llun 27ain Chwefror
i
Dydd Gwener 31ain Mawrth

**Gwyliau'r Pasg:**
Dydd Llun 3ydd Ebrill
i
Dydd Gwener 14eg Ebrill

**Tymor yr Haf**
Dydd Llun 17 Ebrill
i
Dydd Gwener 26 Mai

Hanner Tymor
Dydd Llun 29 Mai
i
Dydd Gwener 2 Mehefin

Dydd Llun 5ed Mehefin
i
Dydd Gwener 21ain Gorffennaf

**Gwener y Groglith** - Dydd Gwener 7 Ebrill 2023
**Llun y Pasg** - Dydd Llun 10 Ebrill 2023
**Gŵyl Banc Calan Mai** - Dydd Llun 1 Mai 2023
**Gŵyl Banc y Gwanwyn** - Dydd Llun 29 Mai 2023
**Royal Welsh Show** - Dydd Llun 24 Gorffennaf – Dydd Iau 27 Gorffennaf 2023

# Rybi XV $1^{af}$ Bechgyn Hŷn – Cystadleuaeth Fâs URC



**Rownd Derfynol Fâs URC –Stadiwm y Principality $2^{il}$ Mawrth 2023**
**Ysgol Calon Cymru 12 Ysgol Gyfun Gŵyr 46**

Achlysur gwych ac anrhydedd i Ysgol Calon Cymru, oedd chwarae am y tro cyntaf yn Stadiwm y Principality. Roedd y XV $1^{af}$ wedi chwarae gyda balchder ac angerdd o'r dechrau i'r diwedd. Yn wynebu gwrthwynebwyr corfforol a hyfforddedig iawn, roedd y bechgyn wedi rhoi cyfrif da o'u hunain. Er iddynt ildio 2 gais cynnar gorffennodd tîm Calon Cymru yr hanner $1^{af}$ y cryfaf, gan bwyso'n barhaus yn 22 y gwrthwynebwyr am gyfnod hir. Ond roedd camgymeriadau syml wedi gwastraffu'r cyfle o ychwanegu mwy na'r un cais a gafwyd gan Tom Evans. Roedd yr ail hanner yn anodd ond brwydrodd Calon Cymru'n galed gan lwyddo i greu rhai cyfleoedd ac yn llwyddo i sgorio un cais yn unig trwy Iwan Holder a Ciaran Price yn trosi. Gall y bechgyn ymfalchïo yn eu hunain a gyda chwarae yng nghartref rygbi Cymru bydd ganddynt atgofion oes.









# LLWYDDIANNAU MYFYRWYR

## Rygbi




Dewiswyd myfyriwr blwyddyn 13 , Ciaran Price, a chwaraeodd fel rhan o Garfan Dan 18 y Scarlets, gan sgorio cais cyntaf yn ystod ei ail gêm gyda'r Scarlets yn trechu Dan 18 RGC ar Barc y Scarlets. Llongyfarchiadau Ciaran.

Mae Eleri Davies, myfyriwr Blwyddyn 12, wedi gwneud camau breision yn cynrychioli tîm Dan 18  Merched y Dreigiau yn yr ymgyrch gradd oed rhanbarthol 2022/23. Mae ei pherfformiad wedi arwain at ei chynnwys yn y garfan D18 Cenedlaethol y tymor hwn a'i chynnwys yn sesiynau hyfforddi yng nghyfleuster URC  yng Ngwesty Dyffrym Morgannwg ger Caerdydd.




## Traws Gwlad




Mae Tristan Tena-Cumberland ac Oscar Davies, Blwyddyn 12, wedi cystadlu  ym mhencampwriaethau Traws Gwlad Ysgolion Cenedlaethol a gynhaliwyd yn Aberhonddu. Roeddent yn cynrychioli Powys, a gwnaeth athletwyr dewisol Ysgol Calon Cymru yn wych mewn maes cystadleuol iawn.
Canlyniadau unigol Ysgol Calon Cymru :
7$^{fed}$ safle: Bechgyn Hŷn - Tristan Tena-Cumberland
21$^{ain}$ safle: Oscar DAVIES
Safle Powys oedd y Tîm 1$^{af}$ Cymru.

## Seiclo



Llongyfarchiadau i Oscar Davies ar fod yn Bencampwr Cyclocross Iau Cymru 2022 ym Mharc Gwledig Penbre.

## Ffermwyr Ifanc




Enwyd Rachel Rees, myfyriwr Blwyddyn 12  o CFfI Pontfaen, yn Aelod Iau y Flwydddyn gan CFfI Brycheiniog.
Dyfarnwyd yr acolâd i Rachel mewn digwyddiad arbennig a gynhaliwyd ar Faes Sioe Frenhinol Cymru .

## Newyddion Eisteddfod

Cafodd Campws Llanfair-ym-Muallt gadair cadeiriol trawiadol ar gyfer Eisteddfod yr Ysgol, a ddyluniwyd gan fyfyriwr Blwyddyn 13 Will Davies. Dyluniodd Will y gadair gan ddefnyddio cynllun drwy gymorth meddalwedd cyfrifiadur a gweithgynhyrchu drwy gymorth (CAD/CAM), a dyferniri y fersiwn bach a welwch yma i'r enillydd. Diolch yn fawr Will!











Llongyrfarchiadau i Elin Williams, myfyriwr Blwyddyn 13 o Gampws Llandrindod a ddewiswyd o rai cannoedd o gynigion i ennill y 'Goron' yn Eisteddfod Campws Llandrindod am y stori a ysgrifennodd.

## Llysgenhadon Iechyd Meddwl Gwrywaidd

Llysgenhadon Iechyd Meddwl Gwrywaidd ar gyfer y flwyddyn academaidd hon:
Bydd Corey Evans, Blwyddyn 12 a Reggie Connolly, Blwyddyn 13 gyda chyd-lysgenhadon a Mrs Williams yn gwesteia digwyddiad yn Neuadd y Strand, Llanfrair-ym-Muallt ar 15fed Mawrth – un a ail-drefnwyd oherwydd eira'r wythnos ddiwethaf :








## Dydd Gŵyl Dewi Sant








Diolch i Gruff o'r Menter Iaith am ddod i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ar gampws Llanfair-ym-MualltRoedd yn gyfle da i gymdeithasu yn y Gymraeg, cael hwyl a mwynhau bwyd blasus yn ystod amser cinio gyda'r 6ed dosbarth.





Mae myfyriwr Blwyddyn 13 Carwyn Hardiman edi llunio blog ar gyfer y Coleg Cymraeg gan siarad am bwysigrwydd y Gymraeg iddo ef ac ychydig o awgrymiadau ar sut i annog mwy ohonom i ddefnyddio a chlywed yr iaith. #gwnewchypethaubychain #defnyddiadygymraeg






Mae myfyriwr Blwyddyn 13 Cerys Gough wedi cymryd rhan mewn cyngerdd Dydd Gŵyl Dewi yn y Legion ar ddydd Sadwrn 4ydd Mawrth. Roedd y gyngerdd yn codi arian i garnifal Llandrindod.








**Gwybodaeth Cyswllt/Contact Information**

**I gysylltu ag aelod o staff/To contact a member of staff:**
Campws Llandrindod/Llandrindod Wells Campus
Ffôn / Phone 01597 822992
office@caloncymru.powys.sch.uk

Gellir cael newyddion am Ysgol Calon Cymru ar ein gwefan, for our latest news, neu gallwch ein dilyn ar Facebook neu Instagram:

www.ysgolcalon.cymru

@yccofficial_

## Dyddiadau ABCh y Dyfodol:

| Hanner Tymor | Blwyddyn 12 | Blwyddyn 13 |
|---|---|---|
| HT3 | Golwg a Gyrfaoedd<br>Dydd Iau 30ain Mawrth 1-4 | |
| HT4 | Ffair UCAS - Casnewydd<br>27ain Ebrill 2023 | Cyllid Myfyrwyr, Cyllidebu, Cynllunio Prydau Bwyd– Dyddiad i'w gadarnhau (Rhithwir) |
| HT5 | Ceisiadau UCAS a datganiadau personol Mehefin/Gorffennaf – i'w gadarnhau | |

**Dyddiadau i'w cofio:**

23ain Mawrth 2023 – Noson Rieni (Ar-lein)
28ain Mawrth – Cynhadledd Seren i ddysgwyr Seren yng nghanolfan chweched dosbarth Campws Llandrindod YCC
30ain Mawrth - Blwyddyn 12 – ymweliad i Aberhonddu i ymrwymiad Cyflogwyr
20fed Ebrill 2023 – Taith maes Daearyddiaeth (YBlwyddyn12)
27ain Ebrill 2023 – Trip UCAS i Brifysgol De Cymru, Casnewydd (Blwyddyn 12)
12fed Mai 2023 – Arholiadau UG/U2 yn dechrau
28ain Mehefin 2023 –Prom y 6ed Dosbarth (Blwyddyn13)
Mehefin/Gorffennaf 2023 – Prifysgol Aberystwyth a'r Llyfrgell genedlaethol Ymchwiliad Bagloriaeth Cymru
6ed Gorffennaf 2023 – Taith maes Daearyddiaeth (Blwyddyn 12 i 13)
W/C 3ydd Gorffennaf – Digwyddiad TedX yng nghanolfan y chweched dosbarth
W/C 10fed Gorffennaf – Wythnos lleoliad gwaith blwyddyn 12
W/C 10fed Gorffennaf – Wythnos sefydlu blwyddyn12 newydd
16eg-19eg Gorffennaf – alldaith Aur DofE

**DS:** Rhaid e-bostio absenoldebau i pricel466@hwbcymru.net ac athro'r gwersi a gollir i gael gwaith wedi ei e-bostio neu ei roi ar Teams

## Hysbysebion/Atgoffa:

- Adnoddau astudio VESPA a Chanllawiau Dysgu Annibynnol ar TEAMS a Moodle a gellir eu cyrchu trwy wefan yr ysgol
- Canllawiau UCAS ac UNIFROG ar gael hefyd ar TEAMS a Moodle.